Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes
Dydd Mercher 7 Tachwedd 2018

**Ysgrifenyddiaeth: Josh James ar ran Diabetes UK Cymru**

**Cadeirydd: Jayne Bryant AC**

Agorwyd y CCB am 12:30

**Eitem 1: Croeso a chyflwyniadau**

JB: Diolchodd i bawb a oedd yn bresennol am ymuno â ni, a dywedodd pa mor falch oedd hi i fod yn Gadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar ddiabetes. Oherwydd ymrwymiadau ei dyddiadur, dywedodd JB y gallai fod yn rhaid iddi adael cyn diwedd y cyfarfod cyffredinol blynyddol ac awgrymodd symud Eitem 5 ar yr agenda (Busnes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol) i ddechrau'r cyfarfod.

*Cytunodd yr ystafell.*

**Eitem 5: Busnes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

JB: Agorodd y llawr i unrhyw enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y grŵp trawsbleidiol. Enwebwyd JB ac yna fe'i hail-etholwyd yn ddiwrthwynebiad.

JB: Parhaodd â sylwadau agoriadol.

Nododd yr effaith enfawr y gall diabetes ei chael ar fywyd unigolyn a thalodd deyrnged i Beth Baldwin, mam o Gaerdydd sydd wedi ymgyrchu'n ddiflino i godi ymwybyddiaeth o Ddiabetes Math 1 ar ôl marwolaeth ei mab, Peter, na chafodd ei ddiagnosio gyda'r cyflwr mewn pryd. Nododd ei bod hefyd yn bwysig nodi bod cyfraddau Diabetes Math 2 yn cynyddu'n gyflym, a bod cysylltiad clir rhwng hyn ag anghydraddoldeb iechyd.

**Eitem 2: Ble rydym ni? – Diweddariad ar y Cynllun Cyflawni ar gyfer Diabetes**

JB: Cyflwynodd Dai Williams, Cyfarwyddwr Diabetes UK Cymru.

DW: Eglurodd fod y Cynllun Cyflawni ar gyfer Diabetes presennol yn deillio o ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'r gwaith o weithredu'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn 2013. Canmolodd DW y gwaith da a wnaethpwyd wrth ddarparu gofal diabetes yng Nghymru ers yr ymchwiliad, a dywedodd fod pob un o'r 13 o argymhellion yr ymchwiliad wedi cael eu hystyried.

Awgrymwyd hefyd y gallai byrddau iechyd barhau i gymryd mwy o gamau, gyda chefnogaeth Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan ar gyfer Diabetes, a bod yna dair problem o hyd y dylid mynd i'r afael â hwy ym marn DUKC:

1. Datblygiad y system gyfrifiadurol WISDM y mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar hyn o bryd yn ei datblygu i'w defnyddio yn GIG Cymru
2. Mae lefel y sylw y mae diabetes yn ei dderbyn ledled Cymru o'i gymharu â Lloegr a'r Alban yn annigonol, gyda'r Alban ar hyn o bryd yn buddsoddi £42 miliwn er mwyn atal diabetes
3. Archwiliad o Nyrsys Arbenigol ar gyfer Diabetes yng Nghymru i weld lle mae angen gwella'r ddarpariaeth bresennol

**Eitem 3: Gordewdra ac Iechyd y Cyhoedd yn yr 21ain Ganrif**

JB: Cyflwynodd Dr Simon Williams o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

SW: Cyflwynodd ei rôl a'i waith gyda'r Gymdeithas Astudio Gordewdra.

JB: Gofynnodd i sleidiau o gyflwyniad SW gael eu dosbarthu ynghyd â'r cofnodion i'r rhai sydd â diddordeb.

SW: Nododd gymariaethau byd-eang gyda'r sefyllfa gordewdra yng Nghymru, sef bod gordewdra ar gynnydd ledled y byd ac nad yw Cymru'n unigryw yn hynny o beth. Dangosodd SW hefyd fod cyfraddau gordewdra oddeutu 24%.

Awgrymodd fod strategaethau gordewdra sy'n canolbwyntio ar blant yn bwysig, ond ar hyn o bryd nid oes digon yn cael ei wneud.

Ardaloedd Caerffili a Blaenau Gwent sydd â'r cyfraddau uchaf o ordewdra oedolion yng Nghymru, ond mae gordewdra ymhlith plant yn fwyaf cyffredin ym Merthyr Tudful. Serch hynny, nid yw'n ddefnyddiol canolbwyntio ar ffigurau unigol, ond yn hytrach mae'n bwysig edrych ar y darlun ehangach.

Nodwyd, fel y dywedodd JB, fod cysylltiad clir rhwng cyfraddau gordewdra ac amddifadedd. Er nad yw'r data o'r CAG yn gwbl derfynol, mae data o Gymru a'r Alban yn awgrymu y gallai fod cyswllt rhwng llymder a gordewdra.

Mae'r rhai sy'n ordew 16 gwaith yn fwy tebygol o ddatblygu Diabetes Math 2.

Mae tebygolrwydd llawer uwch y bydd blant dros bwysau yn dod yn ordew pan fyddant yn oedolion, gan gynyddu'r risg i fod tua 5.5 gwaith mwy tebygol.

Mae'r hyn sy'n gyrru ac sy'n achosion gordewdra yn cynnwys nifer o wahanol ffactorau, gan gynnwys ffactorau ymddygiadol a chymdeithasol. Mae tystiolaeth wedi dangos y gall rheoli pwysau gofal sylfaenol gyflawni rhai deilliannau lleihau pwysau.

JB: Ymddiheurodd am orfod gadael yn gynnar a throsglwyddodd y gadeiryddiaeth i Josh James.

**Eitem 4: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol – Yr hyn mae'n ei olygu i Blant â Diabetes Math 1**

JJ: Esboniodd safbwynt presennol y Gynghrair Gofal mewn Ysgolion ar y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a bod rhanddeiliaid y trydydd sector yn awyddus i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y newidiadau mewn lleoliadau addysg yn cael eu cyflwyno'n effeithiol.

Soniwyd hefyd bod Diabetes UK Cymru wedi bod mewn trafodaeth gyda rhai undebau llafur sy'n cynrychioli athrawon a chanfuwyd bod eu nodau wedi'u halinio ac roedd yn amlwg bod pob un o'r partïon am i'r Ddeddf fod yn llwyddiannus.

**Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dod â'r Cyfarfod i Ben**

JJ: Gofynnodd a oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod. Nid oedd unrhyw beth i'w drafod.

JJ: Diolchodd i bawb a oedd yn bresennol am ddod i gyfarfod y grŵp trawsbleidiol a daeth â'r cyfarfod i ben am 13:35.

*Diwedd y cyfarfod*